# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**CA(3)-07-11**

## CA570: Gorchymyn Moch Daear (Ardal Reoli) (Cymru) 2011

### Gweithdrefn:  Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi difa moch daear gwyllt yn yr ardal reoli i leihau nifer yr achosion o dwbercwlosis yno. Mae'r ardal reoli yn cynnwys tir yn siroedd Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro.  Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod yn rhaid difa moch daear gwyllt drwy eu trapio a naill ai eu saethu neu roi pigiad marwol iddynt, neu drwy eu saethu heb eu trapio. Eiddo Gweinidogion Cymru yw carcas mochyn daear a gaiff ei ddifa felly ac ni chaniateir ei symud heb eu hawdurdod hwy. Mae hefyd yn ei wneud yn drosedd i amddiffyn moch daear gyda'r bwriad o atal eu difa neu rwystro'r Gorchymyn rhag cael ei weithredu mewn unrhyw ffordd.

### Craffu technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### Craffu ar ragoriaethau

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.3(ii) mewn perthynas â'r offeryn hwn – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

1.Mae'r Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Dileu Twbercwlosis (Cymru) 2009 a ddiddymwyd ym mis Gorffennaf 2010 gan y Llys Apêl ar ddiwedd achos llys a gafodd ei ddwyn gerbron gan yr Ymddiriedolaeth Moch Daear.  (Oherwydd i'r Gorchymyn blaenorol gael ei ddiddymu gan y llysoedd, nid oes gwir angen ei ddirymu ond mae'n bosibl mai diben y ddarpariaeth hon yw ei gwneud mor glir â phosibl nad oes gan y Gorchymyn blaenorol unrhyw effaith bellach.)

2.Cafodd y Gorchymyn blaenorol ei ddiddymu ar sail nifer o faterion sy'n gysylltiedig â rhesymau'r Gweinidog dros wneud y Gorchymyn. O dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981, roedd yn ofynnol bod y Gweinidog yn fodlon y byddai'r difa yn arwain at leihad sylweddol yn nifer yr achosion o TB yn yr ardal yr oedd y Gorchymyn yn berthnasol iddo. Datganwyd mai'r ardal hwn oedd Cymru gyfan er mai'r bwriad oedd ymgymryd â'r broses ddifa mewn ardal gyfyngedig. O ganlyniad, nid oedd yr ymarfer ymgynghori yr ymgymerodd y Gweinidog ag ef, na'r dystiolaeth a ystyriodd, yn berthnasol i'r ardal gyfan (Cymru gyfan) yr oedd y Gorchymyn yn gymwys iddi.

3.Ymhellach, nid oedd y Llys wedi'i fodloni bod y Gweinidog wedi defnyddio'r prawf cyfreithiol cywir wrth benderfynu a fyddai'r broses ddifa'n arwain at leihad "sylweddol" yn nifer yr achosion o dwbercwlosis buchol na'i bod wedi ymgymryd ag ymarfer addas i bwyso a mesur effeithiau'r Gorchymyn ar iechyd anifeiliaid a chadwraeth natur sy'n gwrthdaro.

4.Ar ôl i'r Gorchymyn gwreiddiol gael ei ddiddymu, lansiodd Llywodraeth Cymru ymarfer ymgynghori newydd a ddechreuodd ar 20 Medi 2010 ac a ddaeth i ben ar 17 Rhagfyr 2010. Roedd yr ymgynghoriad yn ymwneud â'r ardal reoli y cyfeirir ati bellach yn y Gorchymyn presennol.  Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn cynnwys gwybodaeth sy'n dangos bod y Gweinidog wedi ystyried materion yr honnwyd na chafwyd eu hystyried cyn i'r Gorchymyn gwreiddiol gael ei wneud. Fodd bynnag, mae'r mater cyffredinol hwn o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd ac felly mae'n debygol y bydd y rhai sy'n gwrthwynebu'r cynllun yn ystyried a oes gobaith realistig y byddai cyfreitha pellach yn llwyddiannus.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**
**Mawrth 2011**